## Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal (Safle Ysbyty Alltwen, Eifionydd)

### 1. Nod a Phwrpas y Cynllun

Mae egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' yn sicrhau rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Dyma mae gweithwyr yn ceisio ei wneud bob dydd, ond mae systemau a phrosesau gwaith ar adegau yn gallu rhwystro yn lle cefnogi hyn. **Nod Cynllun Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal ydy symleiddio prosesau gwaith ac osgoi rhwystrau gan arwain at well gwasanaeth i'r unigolyn.**

**Pwrpas:** **"Fy helpu i fyw fy mywyd fel 'dwi isio"**

**Egwyddorion gweithredol newydd**:

1. Yr hyn sydd yn cyfri i'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn.
2. Cael sgwrs gyda'r unigolyn ynglŷn â'u stori a'u cryfderau yr hoffent adeiladu arnynt; gan eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus.
3. Gwneud penderfyniadau gyda'r unigolyn ar yr amser cywir ac yn y man cywir.
4. Ymyraethau wedi'i selio ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn trwy weithio mewn partneriaeth gyda'i gysylltiadau personol.
5. Cadw perchnogaeth gan dynnu arbenigedd i mewn lle bo'r angen.
6. Gwybodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn, ac ar gael yn hawdd i bawb sydd ei angen.
7. Mae ein mesuryddion yn gyrru ein dysgu a'n ffordd o weithio
8. Ein bod yn gweithio fel un tîm.
9. Arweinwyr yn gweithredu i ddiddymu rhwystrau gan alluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol.

**Camau Gwerthoedd**

1 • Beth sydd yn bwysig i'r dinesydd

2 • Helpu'r dinesydd i geisio datrys materion ac i drafod dewisiadau

3 • Helpu'r dinesydd i weithredu dewisiadau yn unol a 'beth sy'n bwysig'

4 • Adolygu effeithiolrwydd canlyniadau o 'beth sy'n bwysig'

### 2. Tîm Gweithredol

Bydd y tîm hwn yn parhau i dyfu nes bydd yr ardal i gyd (Eifionydd) yn rhan o'r ffordd newydd o weithio. Ar hyn o bryd, mae'r tîm gweithredol yn Eifionydd yn cynnwys:

- 3.4 x Gweithiwr cymdeithasol
- 1 x Therapydd Galwedigaethol
- 1 x Swyddog Galluogi
- 1 x Swyddog Maes (trydydd sector)

a) Gwaith yn cael ei wneud i herio mesuriadau corfforaethol/ cenedlaethol
b) Asesiad Pennaf Les (Best Interest assessment) / Mental Capacity Assessment yn cael ei edrych ar - dwy ffurflen wahanol gan Iechyd a Chyngor - un yn fwy na'r llall - ceisio cael un ar gyfer ddau.

### 3. Cwestiwn ac Ateb

- **Beth ydi natur yr achosion mae'r tîm yn delio gyda?**
    - Y tîm yn delio gyda holl achosion sydd yn dod mewn yn uniongyrchol a drwy dîm cynghori ac asesu, y ward, Meddyg Teulu ayb. Tydi'r tîm ddim yn gwahanu achosion i dymor byr a hir. Dydi'r tîm ddim yn delio gydag achosion iechyd meddwl nag anabledd dysgu (gall Therapydd Galwedigaethol y tim gael ei dynnu mewn i achosion anabledd dysgu, oherwydd does dim Therapydd Galwedigaethol o fewn tîm Anabledd Dysgu ar hyn o bryd).

- **Sut mae'r tîm yn derbyn cyfeiriadau?**
    - Yn uniongyrchol ar ffon, e-bost, ffacs
    - Y Ward a Meddyg Teulu ac ysbytai eraill
    - Drwy Dîm Cynghori ac Asesu
    - Dyw'r ffordd o dderbyn cyfeiriadau ddim wedi newid ar hyn o bryd

- **Beth yw'r gwaith papur a ddefnyddir?**
    - Yr unig ffurflen sydd yn cael ei defnyddio yw'r **ffurflen 'Beth sydd yn bwysig?'.** Mae hwn yn cyfuno'r hen ffurflen asesu a chynllun gofal ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adolygiadau hefyd.
    - Mae'r tîm yn edrych ar geisio gwaredu ffurflenni cyfeirio at wasanaethau eraill er mwyn osgoi dyblygu, felly mae'r tîm yn ceisio defnyddio'r ffurflen 'Beth sy'n bwysig' fel ffurf gwybodaeth e.e. ar gyfer gyfeiriad i gartref preswyl, neu fel cyfeiriad am becyn gofal cartref, mae'r ffurflen 'Beth sy'n bwysig' yn nodi holl wybodaeth berthnasol i hysbysu asiantaethau perthnasol beth sy'n bwysig i'r unigolion i alluogi nhw fyw ei bywyd fel y dymunent.

- **Yn syml, beth ydy'r ffordd o weithio?**
    - Perchnogaeth o'r achos o ddechrau i ddiwedd siwrne'r dinesydd. Nid yw achosion yn cael eu pasio ymlaen i weithwyr eraill ond yn cael eu tynnu mewn pan fo angen.
    - Gweithio yn integredig efo iechyd, gofal ar trydydd sector
    - Staff iechyd, gofal a trydydd sector wedi cyd-leoli
    - Llai o waith papur – yn ddelfrydol 80% o'r amser gyda'r dinesydd a 20% ar gyfer gwaith papur.
    - Mwy o ffocws ar beth sy'n bwysig i'r dinesydd, ceisio symud o'r meddylfryd mai'r datrysiad yw gwasanaeth statudol bob tro.
    - Gweithio'n agosach efo'r dinesydd ar drothwy cyfnod/neu yn ystod cyfnod galluogi.
    - Cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn trafod achosion sy'n osgoi gorfod rhoi cais i banel cyn i unrhyw wasanaeth gael ei gomisiynu neu archebu offer.